

Malu gwydr gwin â sain, creu enfys droellog, defnyddio golau i wella clwyfau ac archwilio optoelectroneg ym maes meddygaeth – mae angen gwirfoddolwyr arnom!

A yw'r pethau hyn yn swnio'n ddiddorol? Oes gennych chi ddiddordeb mewn rhannu gwybodaeth am wyddoniaeth â chynulleidfa ifanc? Mae Labordy mewn Lori yn chwilio am wirfoddolwyr sydd â chefnidir ym maes gwyddoniaeth neu beirianeg ar gyfer digwyddiadau ledled Cymru yn ystod y tymor ysgol.

Beth yw Labordy mewn Lori?

Labordy symudol rhyngweithiol yw Labordy mewn Lori, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc (11–14 oed) archwilio gwyddoniaeth drwy arbrofion penagored. Bydd gwirfoddolwyr yn arwain y myfyrwyr drwy'r arbrofion (sy'n ymwneud ag optoelectroneg a meddygaeth, sain a chyseiniant, gwasgaru golau a lliwiau) a byddant yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan a chael profiadau ymarferol.

Beth y byddai'n rhaid i mi ei wneud?

Byddech yn goruchwyllo arbrawf am y dydd. Byddem yn anfon yr holl wybodaeth gefndir atoch ymlaen llaw, ac ar fore'r digwyddiad byddech yn cael hyfforddiant llawn yn y labordy.

Rydym yn gofyn i wirfoddolwyr gynnig o leiaf un diwrnod ysgol llawn, ond mae croeso i chi ymuno â ni am gynifer o ddiwrnodau ag yr ydych yn dymuno. Yn gyfnewid am hynny byddwch yn cael profiad bythgofiadwy a fydd yn rhoi llawer o foddhad i chi, byddwch yn cael nwyddau rhad ac am ddim gan y Sefydliad Ffiseg a byddwch yn cael bod yn aelod cyswllt o'r Sefydliad Ffiseg am flwyddyn www.iop.org

Hoffech chi gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am beth y mae gwirfoddoli ar Labordy mewn Lori yn ei olygu ac i ble y byddwn yn teithio, ewch i'n gwefan www.labinalorry.org.uk lle gallwch gofrestru'n wirfoddolwr hefyd, neu cysylltwch â mi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Mae gwirfoddolwyr yn allweddol i lwyddiant Labordy mewn Lori, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn dod yn rhan o'r tîm.

Diolch yn fawr ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn fuan.

James.



Taith 2014/15 – Amserlen tymor yr hydref			Nifer y gwirfoddolwyr ar hyn o bryd
Medi 2014			
Caerdydd	9, 10 & 11	Cardiff High School , Llandennis Road, Cynoced, Cardiff, CF23 6WG.	0 / 0 / 0
Sir y Fflint	16 & 17	Hawarden High School , The Highway, Hawarden, Flintshire, CH5 3DJ.	0 / 0
Sir Ddinbych	18 & 19	T.B.C.	Cofrestrwch i gael diweddariadau
Sir Benfro	25 & 26	Pembroke School , Bush, Pembroke, SA71 4RL.	0 / 0
Rhondda Cynon Taff	30 & 1 Oct	Pontypridd High School , Cilfynydd, Pontypridd, CF37 4SF.	0 / 0
Hydref 2014			
Caerphilly	2 & 3	Risca Community School , Pontymason Lane, Risca, NP11 6YY.	0 / 0
Powys	7 & 8	Christ College , Llanfaes, Brecon, LD3 8AF.	0 / 0
Powys	9 & 10	Llanidloes High School , Llangurig Road, Llanidloes, Powys, SY18 6EX.	0 / 0
Wrecsam	14 – 16	T.B.C.	Cofrestrwch i gael diweddariadau
Neath	21, 22 & 23	Dwr-Y-Felin Comprehensive , Dwr-Y-Felin Road, Neath, SA10 7RE.	0 / 0 / 0
Tachwedd 2014			
Powys	3, 4 & 5	Crickhowell High School , New Road, Crickhowell, Powys, NP8 1AW.	0 / 0 / 0
Sir y Fflint	12, 13 & 14	Argoed High School , Bryn Road, Mold, CH7 6RY.	0 / 0 / 0
<i>Bydd rhagor o ddiwyddiadau ledled y wlad yn cael eu hychwanegu at y rhestr. Bydd y daith yn cael ei chynnal yn ystod tymhorau ysgol a bydd yn para tan fis Mawrth 2015.</i>			

Mae angen o leiaf 3 o wirfoddolwyr bob dydd ar Labordy mewn Lori i gynnal yr arbrofion, a gallwn gymryd hyd at 6 o bobl.

Cofrestrwch yn wirfoddolwr ar www.labinalorry.org.uk